OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 3

### Gweithredu yn dilyn methiant

**Darparu gwybodaeth**

**17.** Os yw awdurdod lleol o'r farn bod cyflenwad dŵr preifat yn ei ardal yn peri perygl posibl i iechyd dynol, rhaid iddo gymryd camau priodol yn brydlon i sicrhau bod y bobl sy'n debygol o yfed dŵr ohono—

(a) yn cael gwybod bod y cyflenwad yn peri perygl posibl i iechyd dynol;

(b) pan fo modd, yn cael gwybod am natur a graddau'r perygl posibl; ac

(c) yn cael cyngor i'w caniatáu i leihau unrhyw berygl posibl o'r fath.